Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru
Royal Welsh Agricultural Society
Maes Sioe Frenhinol Cymru
Llanelwedd
Llanfair-ym-Muallt
Powys LD2 3SY
Royal Welsh Showground
Llanelwedd
Builth Wells
Powys LD2 3SY

Ysgoloriaeth Goffa Louise Owen

Dyfernir i'r cneifiwr iau mwyaf addawol yng Nghymru

Mae Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn falch o gefnogi ysgoloriaeth o £1,000 er cof am Sarah Louise Owen.

Cafodd yr ysgoloriaeth hon ei chyflwyno gyntaf yn 2014 er cof am Louise Owen, a oedd yn drinwraig gwlân fedrus ac a fu'n teithio'n helaeth ar draws y byd. I warchod ei choffadwriaeth, mae'r teulu'n garedig iawn wedi sefydlu'r ysgoloriaeth hon i roi'r cyfle i gneifiwr iau ddatblygu a hybu ei sgiliau mewn cneifio.

Bydd yr ysgoloriaeth yn cael ei dyfarnu i'r cneifiwr iau sy'n dangos fwyaf o addewid a bydd yn cael ei defnyddio i helpu i ariannu taith i Seland Newydd yn hydref 2019. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn derbyn hyfforddiant uwch a bydd yn gweithio gyda chontractwr cneifio a drefnir ymlaen llaw.

Meini Prawf Cymhwysedd

Rhaid i bob ymgeisydd:-
a) fod yn gneifiwr iau,
b) fod yn 26 mlwydd oed neu iau ar ddiwrnod cyntaf Sioe Frenhinol Cymru 2018
c) fod yn byw yng Nghymru, a
ch) heb fod wedi ennill yr ysgoloriaeth yn y gorffennol.

Meini Prawf Dyfarnu

Bydd yn ysgoloriaeth yn cael ei dyfarnu i'r cneifiwr iau sydd:-
a) wedi dangos gallu cyson trwy gydol tymor sioeau cneifio Cymru,
b) yn gallu dangos ymroddiad a dyhead i wella'u gallu cneifio, ac
c) sydd wedi'i glustnodi fel un o'r cneifwyr mwyaf addawol yng Nghymru.

Gofynnir i ymgeiswyr lenwi'r ffurflen gais amgaeedig a byddant yn cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf dyfarnu a amlinellwyd uchod. Mae'r ysgoloriaeth hon yn agored i bob cneifiwr iau yng Nghymru.

Byddir yn cyflwyno tystysgrif i'r ymgeiswyr llwyddiannus yn Sioe Frenhinol Cymru 2019 a bydd disgwyl iddynt ysgrifennu erthygl ar gyfer blwyddlyfr y Gymdeithas ar ôl iddynt ddychwelyd o'u taith.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw'r 1af Hydref 2018 a byddir yn gofyn i ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer ddod am gyfweliad anffurfiol o flaen y panel dewis.

Ysgoloriaeth Goffa Louise Owen

Ffurflen Gais

Enw: ……

Cyfeiriad: ……

……

Ffôn: ……

Symudol: ……

E-bost: ……

Dyddiad geni: ……

1) Amlinellwch eich:-

(a) profiad ymarferol o ran cneifio

……

……

……

(b) cyfranogiad mewn cystadlaethau cneifio

……

……

……

(c) cysylltiad arall â'r diwydiant defaid

……

……

……

2) Amlinellwch paham yr hoffech deithio i Seland Newydd

……

……

……

Ar ôl ei llenwi dychwelwch eich ffurflen gais at Tracy Powell, CAFC, Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd, Llanfair-ym-Muallt, Powys, LD2 3SY (tracy@rwas.co.uk).

Y dyddiad cau yw **1af Hydref 2018**.